

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mair Hughes (Cefn Berain) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd a Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan ac y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn.

Ymateb i Argyfwng y Philippines

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf, os dymunwch ymateb i'r argyfwng yn y Philippines yn dilyn y corwynt erchyll, mae croeso i chi wneud hynny naill ai trwy'r Disaster Emergency Committee, neu gallwch gyfrannu trwy'r Ofalaeth gan ddefnyddio'r amlenni melyn hyn gan Tearfund. Mae mwy o'r amlenni wedi cyrraedd, felly holwch un o'r blaenoriaid i gael amlen, a'i dychwelyd i Mair erbyn Rhagfyr 8fed, os gwelwch yn dda. Dylid gwneud unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac os yw'n bosibl i chi hefyd lenwi ac arwyddo'r ffurflen rhodd cymorth sydd ar yr amlen, byddai hynny hefyd yn cynyddu gwerth eich rhodd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.



I ddod

- **NOSON ARBENNIG I LANSIO'R LLYFR "CAPEL CEFN MEIRIADOG DDOE A HEDDIW"** gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meiriadog, nos Iau, Rhagfyr 5ed am 7.30. Bydd cyfle ar ôl y lansio am sgwrs, paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- **HWYL YR WYL** ar gyfer oedrannau 7-11 oed yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed rhwng 10.00-5.30. Y pris fydd £12 y plentyn ac £8 i'r ail blentyn. Cysylltwch â'r Coleg erbyn Tachwedd 21ain i archebu lle: (01678) 520565.
- **GWASANAETH CAROLAU I'R FRO** yn Llansannan nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn.

Gweu i blant y byd



Diolch o galon i bawb fu'n gweu yr hetiau beanie.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Tachwedd 2013

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniad 10:5-13

(BCND tud.174 / BCN: tud.159)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da i chi, a chroeso i oedfaon y dydd. Diolchwn i Dduw am gyfle newydd i alw arno ac i ddiolch iddo am ei drugaredd a'i gariad tuag atom. Diolchwn hefyd am ein cyfeillion sy'n dod atom i bregethu'r Gair. Pobl wedi eu hanfon ydynt, wedi eu hanfon i rannu'r newyddion da. "Aeth eu lleferydd allan i'r holl ddaear, a'u geiriau i eithafoedd byd!" (Rhuf. 10: 18) Diolchwn i'r Arglwydd ei fod yn dal i anfon pobl allan i'r holl fyd i sôn am Iesu, am fawredd ei berson a'i waith – Goleuni'r byd a Thywysog nef!

Parhawn i weddio hefyd dros yr ymdrech i gyfarfod angen pobl ynysodded y Philippines yn gorfforol ac yn ysbrydol. Gweddiwn am fendith ar y newyddion da am gariad Duw a fydd yn cael ei rannu yno, er pa mor anodd fydd hynny, mewn gair ac mewn gweithred. Diolch i chithau am ymateb trwy'r amrywiol gasgliadau ac am yr holl weu ar yr hetiau beanie ar gyfer y plant trwy Operation Christmas Child. Welais i erioed y fath gasgliad amryliw!

Nid cymryd darlun o fyd gweu a wna Paul yn y rhan yma o'i lythyr ond o fyd y crochenydd (Rhuf. 9: 19 ymlaen). Ond yr un ydi'r egwyddor mae'n debyg. Ei ddadl fawr ydi fod gan Dduw hawl, fel yr un sydd wedi ein creu, i wneud fel y mynno â ni, yn union fel y mae gan y crochenydd hawl ar ei glai – neu'r sawl sy'n gweu, ar ei het beanie! Mae hon yn ddadl amlwg ac yn dysgu gostyngedd rwydd mawr i ni. Mae'n rhaid i ni gymryd yr hawl yma sydd gan Dduw o ddifri tra'n cofio hefyd fod ewyllys Duw ar gyfer pobl a'i greadigaeth mor wych a gogoneddus.

Mae calon Duw yn y gwaith o adfer ei greadigaeth ac o ddangos ei gariad tuag atom. Sut mae esbonio dyfodol Crist i'r byd, ei fywyd a'i farwolaeth, ei atgyfodiad a'i eiriolaeth, anfoniad ei Ysbryd ac anfoniad ei genhadon i'r holl fyd i gyhoeddi'r ffordd i'r bywyd yng Nghrist ar wahân i hyn? Mae gan y crochenydd feddwl mawr o'i glai mae'n rhaid gen i!

Ac mae anfoniad ei Air trwy gyfrwng y Beibl a'r pregethwyr sy'n dod atom yn arwydd sicr o'i drugaredd. Trwy glywed y mae ffydd yn dod, a chlywed, trwy Air Crist (Rhuf. 10:17). A dyma Air da i'w gredu mai "os cyffesi Iesu yn Arglwydd a'th enau, a chredu yn dy galon fod Duw wedi ei gyfodi ef oddi wrth y meirw, cei dy achub." (Rhuf.10: 9)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Christian Viewpoint** – Cyfarfod Nadoligaidd Arbennig yng nghwmni Sioned Terry yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched.
- Mercher • **Gwasanaeth Sefydlyd y Parch. Hywel Edwards** yn weinidog ar Ofalaeth Ardal Thomas Charles am 7.00 yng Nghapel Tegid, y Bala. Croeso i bawb.
• **Adnabod – Grŵp Elen** yn cyfarfod yng Nghewn Meiriadog am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf** • Cynhelir **Oedfa Arbennig Sul y Beibl i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias a bydd **Arfon Jones, Caerdydd** (Llanrhaeadr gynt) yn agor y Gair i ni. Edrychwn ymlaen i'w groesawu i'n plith ac i glywed rhywfaint o hanes cyfieithu'r Beibl i Gymraeg cyfoes, sef **beibl.net**

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac i'r oedolion yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn pregethu yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinió'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydrededeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydrededeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher Bydd paned a sgwrs efo Aneurin yng Nghanolfan Gymunedol Tanyfron am 8.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau